Y CLWYF MEWN AMSER

Hwn yw'r clwyf mewn Amser. Ni all llanw a thrai'r ganrif,
Wrth lafarganu'u salmau chwerw, mo'i wella.
Nid y rhyfel i ladd pob rhyfel; esgorfa angau;
y pridd yn magu'i wyau clwc metel, a deor
cyflafan newydd. Ond sut y gallech chi wybod, mor ddewr
â chred wrth i chi gamu ar y cychod, dan ganu?
Diwedd Duw yn yr aer gwenwynig, ffrwydredig.
Y canu'n gyddfolchi'i waed ei hun. Synhwyro a wnawn
i chi roi eich byd dros gariad; sgwariau trefi'n dawel,
wrth ddisgwyl eu cofebion. Beth ddigwyddodd wedyn?
Rhyfel. Ac wedi hynny? Rhyfel. A heddiw? Rhyfel. Rhyfel.
Waeth i hanes fod yn ddŵr, yn ceryddu'r glannau hyn;
gan na ddysgwn ddim o'ch aberth ddi-ben-draw.
Eich wynebau'n boddi yn nhudalennau'r môr.

Carol Ann Duffy

#PagesOfTheSea